# UNGOED-THOMAS, (ARWYN) LYNN (1904-1972), gwleidydd Llafur



**Enw:** (Arwyn) Lynn Ungoed-thomas
**Dyddiad geni:** 1904
**Dyddiad marw:** 1972
**Priod:** Dorothy Ungoed-Thomas (née Wolfe)
**Rhiant:** Katherine Ungoed-Thomas (née Howells)
**Rhiant:** Evan Ungoed-Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwleidydd Llafur
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** John Graham Jones

Ganed ef yng Nghaerfyrddin ar 26 Mehefin 1904, yn fab i'r Parch Evan Ungoed-Thomas a Katherine Howells. Bu ei dad, gweinidog gydag enwad y Bedyddwyr Cymraeg, yn gwasanaethu yng Nghaerfyrddin am dros ddeugain mlynedd. Bu'r cefndir hwn yn bendant yn gyfrifol am ffurfio syniadau a chymeriad Ungoed-Thomas. Roedd ymhob ystyr o'r gair yn fab i'r mans anghydffurfiol. Drwy gydol ei fywyd nid anghofiodd ef fyth ei fod yn Gymro ac yn anghydffurfiwr.

Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin, Ysgol Haileybury a Choleg Magdalene, Rhydychen. Galwyd ef i'r bar yn y Deml Fewnol ym 1927, derbyniodd Sidan (KC) ym 1947, a daeth yn feinciwr llawn ym 1951. Derbyniodd Wobr Profumo a derbyniodd Ysgoloriaeth Yarborough Anderson y Deml Fewnol.

Gwasanaethodd yn y fyddin drwy gydol yr Ail Ryfel Byd, gan ddringo i reng uwch-gapten. Ef oedd AS Llafur etholaeth Llandaf a'r Barri, 1945-50 (sedd a ddiddymwyd gan y comisiynwyr ffiniau), safodd yn aflwyddiannus yn sir Gaerfyrddin ym 1950, ac yna cynrychiolodd Gogledd-orllewin Caerlyr o is-etholiad ym 1950 tan 1962.

Daeth Ungoed-Thomas yn aelod o Gyngor Cyffredinol y Bar ym 1946 a daeth yn ddiweddarach yn gadeirydd ar Gymdeithas Bar y Siawnsri. Roedd yn aelod o Bwyllgor Uthwatt ar Ddiwygio'r Drefn Brydlesol ym 1948 (wedi ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor), a llofnododd adroddiad y pwyllgor lleiafrifol a argymhellodd freinio prydlesau. Roedd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor ar Lysoedd Marsial y Llynges ym 1949 (fe'i penodwyd gan Brif Arglwydd y Morlys a bu'r Meistr Ustus Pilcher yn llywyddu drosto), a hefyd o Bwyllgor Diwygio'r Gyfraith Statudol (a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor). Bu'n llywydd Cymdeithas Hardwicke. Ef oedd y cynrychiolydd Prydeinig ar Gyngor Ewrop ym 1949. Gwasanaethodd yn Gyfreithiwr-Cyffredinol ym 1949-51 a phenodwyd ef yn Farnwr yr Uchel Lys ym mis Ebrill 1962, cam a arweiniodd at ei ymddiswyddiad o Dy'r Cyffredin.

Er gwaethaf ei gefndir, daeth yn hynod o gyfeillgar gyda'i gydweithwyr Ceidwadol ym Mar y Siawnsri ac ar y Fainc. Ysgubwyd i ffwrdd unrhyw wahaniaethau gwleidyddol gan ei gyfeillgarwch di-ffael, ei hiwmor iach a'i allu i gymdeithasu'n hawdd. Er ei gefndir a'i fagwraeth Gymraeg, anghydffurfiol, roedd bob amser yn hollol esmwyth ymhlith y dosbarthiadau proffesiynol

Seisnig. Yn gynnar yn y flwyddyn 1972 clywodd achos enwog o dor hawlfraint a ddaethpwyd gerbron gan Miss Nora Beloff, gohebydd gwleidyddol yr *Observer*, yn erbyn *Private Eye*.

Yn ei ddyddiau iau roedd wedi dangos cryn allu fel chwaraewr rygbi ac ym 1924 bu'n chwaraewr rhyngwladol wrth gefn ar gyfer Cymru. Priododd Lyn Ungoed-Thomas ar 19 Ebrill 1933 â Dorothy, merch Jasper Travers Wolfe o swydd Cork, a bu iddynt ddau fab ac un ferch. Bu farw'n sydyn yn Llundain ar 4 Rhagfyr 1972.

## Awdur

**Dr John Graham Jones**

## Ffynonellau

*Who was who?*

*Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997* (Talybont 1999)

*Welsh Hustings - 1885-2004* (Rhydaman 2005)

*Dod's Parliamentary Companion*

*The Times*, 6 Rhagfyr 1972

## Darllen Pellach

Archifau LlGC: Vote for Lynn Ungoed-Thomas The Labour Candidate

Erthygl Wicipedia: Lynn Ungoed-Thomas

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6709269

**Dyddiad cyhoeddi:** 2011-08-09

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu